# Papur y Bwrdd

13 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur:** | Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2016/17 |
| **Cyfeirnod y Papur:** | NRW B B 34.17 |
| **Noddir y Papur gan:** | Ashleigh Dunn |
| **Cyflwynir y Papur gan:** | Ashleigh Dunn |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **<u>Penderfyniad</u>/ Craffu/ Datblygiad / Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2016/2017 i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Noder - efallai nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu CNC i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Edrych ar y <u>tymor hir</u>:**<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br><br>**Mabwysiadu dull <u>integredig</u>:**<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:**<br>Y gallu i roi dewis o iaith wrth ymdrin â'r cyhoedd, gan drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ein gwaith<br><br>**Gweithio mewn ffordd <u>gydweithrediadol</u>:**<br>Sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg ym mhob un o'n meysydd gwaith<br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:**<br>Mae darparu gwasanaeth dwyieithog yn enghraifft o arfer da, gan alluogi pobl i fynegi eu safbwyntiau'n well yn yr iaith y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn ei siarad. |

**Mater**

1. Cymeradwyo ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar y cynnydd a wnaed gyda'n Cynllun Iaith Gymraeg a lansiad Safonau'r Gymraeg yn ystod 2016/2017.

**Cefndir**

2. Roedd Cynllun Iaith Gymraeg Cyfoeth Naturiol Cymru yn bolisi corfforaethol a ddatblygwyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Roedd y cynllun yn amlinellu sut byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru. Daeth y cynllun i rym ar 1 Ebrill 2013 a chafodd ei ddisodli ar 25 Ionawr 2017 pan ddaeth Safonau'r Gymraeg i rym dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a sefydlodd fframwaith cyfreithiol y mae dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gydymffurfio ag ef.
3. Mae diweddariadau wedi cael eu darparu'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys y Safonau arfaethedig, ein hymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori, ein cynllun gweithredu, a'n canfyddiad o risgiau.

**Asesiad**

**Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2016/2017) (Atodiad 1)**

4. Mae'n ddyletswydd arnom dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i gynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol ar y cynnydd a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn wrth roi ein Polisi Iaith Gymraeg ar waith, ac i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg erbyn diwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn pwysleisio gwaith rydym wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth am y polisi a'r cyfleoedd i'n staff weithio'n ddwyieithog ac yn adrodd am dargedau penodol yn y fformat y gofynnwyd amdano gan y Comisiynydd.

**Uchafbwyntiau ar gyfer Adroddiad 2016/2017:**

- Sut y gwnaethom baratoi ar gyfer lansio Safonau'r Gymraeg ar 25 Mehefin 2017.
- Canfod y risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio a chynllunio camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw.
- Trwy hysbysebu ar 'Gwerthu i Gymru' am gyflenwr i ddarparu hyfforddiant ar gyfer y dosbarthiadau a gynhelir yn fewnol gennym, gwnaethom lwyddo i arbed £10,000, sydd wedi ein helpu ni i allu cefnogi mwy o'n staff i ddatblygu eu sgiliau iaith.
- Lansiwyd ein Cyfeirlyfr Pobl, ein cyfeirlyfr staff mewnol y gellir ei chwilio. Mae gan hwn swyddogaethau o ran y Gymraeg, gan gynnwys sgiliau Cymraeg staff. Mae hyn yn ddefnyddiol wrth ganfod pwy sy'n siarad Cymraeg a'u lleoliad.

- Lansiwyd offeryn cyfieithu Bing/Word i helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac i helpu ein siaradwyr Cymraeg i fagu hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig.
- Ailddyluniwyd ein gwefan yn ddiweddar ac roedd ystyriaethau'r Gymraeg yn rhan o'r broses hon.
- Gellir gweld dadansoddiad manylach o'r uchafbwyntiau yn yr adroddiad ei hun.

**Gellir gweld dadansoddiad manwl o'r uchafbwyntiau yn Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2016/2017.**

## Argymhelliad/Argymhellion

5. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo Atodiad 1 Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2016/2017 i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg erbyn diwedd mis Gorffennaf 2017.

## Prif Risgiau

6. Bydd methu â chynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg yn torri ein dyletswydd gyfreithiol o fewn ein hysbysiad o gydymffurfiaeth.
7. Bydd angen ystyried y Gymraeg bob tro y bydd angen uwchraddio'r system MyNRW yn y dyfodol, i alluogi staff i roi gwybodaeth ar y system yn Gymraeg yn unol â gofynion ein hysbysiad o gydymffurfiaeth.
8. Nodir y prif risgiau ar dudalen 17 Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2016/17.

## Goblygiadau Ariannol

9. Bydd y gwaith o roi'r Safonau ar waith yn parhau o gyllidebau cyfredol. Bydd cost ychwanegol i uwchraddio MyNRW i gynnwys gofynion y Gymraeg, y bydd angen eu trafod â'r cyflenwr.

## Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb

10. Cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar Safonau'r Gymraeg fel rhan o ddatblygiad y polisi.

## Mynegai o Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2016/2017